| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU** | **WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd** | **General Certificate of Secondary Education**

631/51

**TGAU**

**TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU GYMHWYSOL**

**(DWYRADD)**

A.M. DYDD MERCHER, 6 Mehefin 2007

(2 Awr)

| **Arholwr yn unig** | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Marciau** | |

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur hwn bydd arnoch angen Deunydd Adnoddau i'w ddefnyddio gyda Chwestiwn 9.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn. Os nad oes gennych ddigon o le i'ch ateb, cewch barhau â'ch ateb yng nghefn y llyfryn, gan ofalu nodi rhif y cwestiwn yn gywir.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*Atebwch* **bob** *cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.*

*Mae'r cwestiynau yn y papur hwn wedi eu seilio ar gyd-destun cadwyn o westai o'r enw 'Gwesty Gwyliau'.*

**1.** Mae *Gwesty Gwyliau* yn defnyddio'r Rhyngrwyd yn aml i wneud gwaith ymchwil. Ticiwch **un** blwch ym **mhob** achos i ddangos pa nodwedd y gellid ei defnyddio i gwblhau'r tasgau canlynol **orau**:

*(a)* Gweld y dudalen we ddiwethaf rydych chi newydd fod yn edrych arni. [1]

Dadwneud ☐

Cildroi ☐

Nôl ☐

Ymlaen ☐

*(b)* Cadw cyswllt i wefan a ddefnyddir yn aml er mwyn gallu ei chyrchu'n hawdd. [1]

Fformiwlâu ☐

Ffrindiau ☐

Aml ☐

Ffefrynnau ☐

*(c)* Edrych am wefan benodol gan ddefnyddio geiriau allweddol. [1]

Chwilio ☐

Canfod ☐

Mynd ☐

Rhedeg ☐

*(ch)* Ail-lwytho tudalen nad yw wedi llwytho i lawr yn iawn. [1]

Diddymu ☐

Adnewyddu ☐

Gwrthyrru ☐

Ailwefru ☐

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**2.** Mae *Gwesty Gwyliau* yn cyhoeddi cylchlythyr ar gyfer ei staff.

*(a)* Nodwch pa *gymhwysiad meddalwedd* a fyddai'n **fwyaf** addas ar gyfer cynhyrchu cylchlythyr *Gwesty Gwyliau.* [1]

..............................................................................................................................................

*(b)* Mae'r gwesty eisiau cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn hysbyseb yn y cylchlythyr:

Rydym yn chwilio am groesawydd ar gyfer ein gwesty yn Ne Caerdydd. Mae sgiliau cyfathrebu da a sgiliau TG da yn hanfodol. Byddai profiad yn fantais, ond rhoddir hyfforddiant llawn. Cyflog ar raddfa genedlaethol Gwesty Gwyliau; i'w drafod gan ddibynnu ar brofiad a chymwysterau. I gael rhagor o fanylion a ffurflen gais, cysyllter â: Y Rheolwr, Gwesty Gwyliau, Gerddi'r Parc, Caerdydd. Ffôn 029 2056 1212.

Awgrymwch **bedair** techneg fformatio *wahanol* a allai gael eu defnyddio i wella golwg yr hysbyseb uchod. *Byddwch yn benodol ynglŷn â'u defnydd.* Mae enghraifft wedi'i gwneud i chi. Peidiwch â defnyddio'r enghraifft hon yn eich ateb. [4 × 1]

| **Techneg fformatio** | **Ble y gellid ei defnyddio?** |
|---|---|
| Italig | 'Mae sgiliau cyfathrebu a sgiliau TG da yn hanfodol.' |
| (i) | |
| (ii) | |
| (iii) | |
| (iv) | |



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**3.** Mae *Gwesty Gwyliau* yn cyfrifo ei elw bob mis gan ddefnyddio tabl fel a ddangosir isod.

| | A | B | C | D | E | F | G |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | | **Costau Ystafelloedd ar gyfer Tachwedd** | | | | | |
| **2** | | | | | | | |
| **3** | *Math o Ystafell* | Sengl | Dau Wely | Dwbl | Sengl *En Suite* | Dau Wely *En Suite* | Dwbl *En Suite* |
| **4** | *Pris* | 35 | 45 | 50 | 45 | 55 | 60 |
| **5** | *Deiliadaeth (occupancy) (sawl noson)* | 10 | 20 | 15 | 20 | 10 | 10 |
| **6** | *Incwm* | 350 | 900 | 750 | 900 | 550 | 600 |
| **7** | | | | | **Cyfanswm Incwm** | | **£4,050.00** |
| **8** | | | | | | | |
| **9** | *Gwariant am y Mis* | | | | | | |
| **10** | Trydan | £850.00 | | | | | |
| **11** | Dŵr | £150.00 | | | | | |
| **12** | Lluniaeth | £75.00 | | | **Elw** | | **£1,275.00** |
| **13** | Glanhau | £1,600.00 | | | | | |
| **14** | Cyflenwadau ystafell ymolchi | £100.00 | | | | | |
| **15** | **Cyfanswm Gwariant** | **£2,775.00** | | | | | |

*(a)* Nodwch y *math* mwyaf addas o raglen gyfrifiadurol ar gyfer cynhyrchu'r tabl hwn a dadansoddi'r data. [1]

Math o raglen feddalwedd: ..............................................................................................

*(b)* Rhowch y rhes sy'n cynnwys y label *Deiliadaeth (sawl noson)*. .............................. [1]

*(c)* Rhowch y golofn sy'n cynnwys y label *Dwbl*. .............................. [1]

*(ch)* Rhowch y gell sy'n cynnwys y *Pris* am ystafell *Sengl En Suite*. .............................. [1]

*(d)* Rhowch y gell sy'n dangos y *ffigur* ar gyfer *Elw*. .............................. [1]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(dd)* Gan ddefnyddio geiriau o'r blychau, cwblhewch y tabl isod i ddangos y math o ddata ym **mhob un** o'r celloedd isod. Dylai **pob** gair ymddangos yn y tabl **unwaith yn unig**. [4]

**Arian** **Testun** **Fformiwla** **Rhif**

| Cell | Math o ddata |
|---|---|
| **B4** | |
| **A15** | |
| **F6** | |
| **B14** | |

*(e)* Mae'r amrediad celloedd B1: F1 wedi cael ei gyfuno. Enwch **ddau** *amrediad celloedd arall* sydd wedi cael eu cyfuno hefyd. [2]

(i) ............................................................................ (ii) ............................................................................

*(f)* Nodwch pa **un** o'r fformiwlâu canlynol y gellid ei defnyddio i gyfrifo'r *Incwm* ar gyfer ystafell *Ddau Wely*. [1]

(i) =F4+F5

(ii) =C4*C5

(iii) =SWM(C4:C5)

(iv) =C4+C5

Ateb: ............................................................................

*(ff)* Rhowch **un** fformiwla addas i gyfrifo'r *Incwm* ar gyfer ystafell *Ddwbl En Suite*. [1]

..............................................................................................................................................................................................

*(g)* Rhowch **ddwy** fformiwla addas i gyfrifo *Cyfanswm Gwariant*. [2]

(i) ..............................................................................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................................................................

*(ng)* Rhowch **un** fformiwla addas i gyfrifo'r *Elw*. [1]

..............................................................................................................................................................................................

*(h)* Mae'r *Pris* am ystafell *Ddwbl* yn cael ei gynyddu.

(i) Nodwch pa gell y mae angen ei newid â llaw. ........................................ [1]

(ii) Nodwch pa **dair** cell *arall* a fyddai'n newid yn *awtomatig*. [3]

Cell ........................................ Cell ........................................ Cell ........................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**4.** Mae'r tabl isod yn dangos rhan o'r gronfa ddata o westeion *(guests)* sy'n cael ei chadw gan *Gwesty Gwyliau*.

| **Rhif Gwestai** | **Teitl** | **Enw Cyntaf** | **Cyfenw** | **Rhif Ystafell** | **Prydau *(Board)*** | **Dyddiad Cyrraedd** | **Cynnig** | **Sawl Noson** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 05123 | Ms | Briony | Addams | 14 | HP | 18/02/2005 | Ie | 5 |
| 05128 | Mr | Gareth | Addams | 12 | HP | 28/03/2005 | Na | 12 |
| 09675 | Mrs | Dawn | Davies | 11 | PLl | 10/04/2005 | Na | 3 |
| 06324 | Miss | Nia | Evans | 9 | GB | 10/04/2005 | Ie | 2 |
| 17551 | Mr | Peter | James | 7 | HP | 23/02/2006 | Ie | 7 |
| 16852 | Miss | Linda | Jones | 8 | PLl | 23/02/2006 | Ie | 14 |
| 16921 | Mr | Ali | Jan | 9 | GB | 02/03/2006 | Ie | 2 |
| 19578 | Mr | Paul | Lewis | 4 | GB | 24/06/2006 | Na | 3 |

*(a)* Nodwch sawl *maes* sydd i'w gweld yn y gronfa ddata hon. .......................... [1]

*(b)* Nodwch y *maes allweddol*. .......................... [1]

*(c)* Nodwch *bwrpas* y maes allweddol. [1]

..........................

..........................

*(ch)* Nodwch sawl *cofnod* sydd i'w gweld yn y gronfa ddata hon. .......................... [1]

*(d)* Nodwch **un** rheswm pam y byddai *Gwesty Gwyliau* yn *ychwanegu* cofnod at y gronfa ddata hon. [1]

..........................

*(dd)* Nodwch **un** rheswm pam y byddai *Gwesty Gwyliau* yn *golygu* cofnod yn y gronfa ddata hon. [1]

..........................

*(e)* Enwch y **pedwar** *math data* a ddefnyddir yn y gronfa ddata hon. [4]

(i) .......................... (ii) ..........................

(iii) .......................... (iv) ..........................

*(f)* Defnyddir cod yn y maes *Prydau* i ddangos a yw'r gwestai wedi bwcio prydau llawn (PLl), hanner prydau (HP) neu wely a brecwast (GB). Rhowch **ddwy** o fanteision defnyddio *data wedi'u codio*. [2]

Mantais 1: ..........................

Mantais 2: ..........................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ff)* Mae ar un o reolwyr *Gwesty Gwyliau* angen rhestr o gwsmeriaid sydd wedi bwcio *prydau llawn*. Rhowch y **maes** a'r **meini prawf** sydd eu hangen i gael y cofnodion hyn *yn unig* o'r gronfa ddata. [1]

.............................................................................................................................................

*(g)* Mae ar un o reolwyr *Gwesty Gwyliau* angen manylion cwsmeriaid sy'n aros am *fwy na 7 noson*. Rhowch y **maes** a'r **meini prawf** sydd eu hangen i gael y cofnodion hyn *yn unig*. [1]

.............................................................................................................................................

*(ng)* Mae ar un o reolwyr *Gwesty Gwyliau* angen manylion cwsmeriaid gwely a brecwast sydd wedi manteisio ar *Gynnig*. Rhowch y **meysydd** a'r **meini prawf** sydd eu hangen i gael y cofnodion hyn *yn unig* o'r gronfa ddata. [3]

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

.............................................................................................................................................

*(h)* Mae un o ysgrifenyddesau *Gwesty Gwyliau* eisiau defnyddio postgyfuno i anfon llythyr safonol at gwsmeriaid sydd wedi aros yn y gwesty ers 1 Ionawr 2005.

(i) Rhowch y meysydd a meini prawf sydd eu hangen i ddewis y cwsmeriaid hyn *yn unig*. [1]

.............................................................................................................................

(ii) Nodwch pa **ddau** faes y byddai'n eu defnyddio ar ddechrau'r llythyr, yn dilyn y cyfarchiad 'Annwyl'. [2]

Maes 1: .................................................. Maes 2: ..................................................

*(i)* Ticiwch **un** blwch i ddangos sut mae'r gronfa ddata hon wedi cael ei threfnu. [1]

Yn ôl Dyddiad Cyrraedd ac yna Cyfenw ☐

Yn ôl Cyfenw ac yna Dyddiad Cyrraedd ☐

Yn ôl Cyfenw ac yna Enw Cyntaf ☐

Yn ôl Cyfenw ac yna Rhif Gwestai ☐

Dim un o'r rhain ☐



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**5.** Mae rheolwyr *Gwesty Gwyliau* yn defnyddio *cyflwyniadau amlgyfrwng* wrth hyfforddi staff.

*(a)* Nodwch swyddogaeth y nodweddion canlynol.

Dolen *(Loop)* ..........

.......... [1]

Newid sleidiau *(Slide transition)* ..........

.......... [1]

Man poeth ..........

.......... [1]

*(b)* Ar wahân i *ddolen*, *newid sleidiau* a *man poeth*, nodwch **ddwy** nodwedd *arall* a ddefnyddir yn benodol mewn meddalwedd amlgyfrwng. [2]

Nodwedd 1: ..........

..........

Nodwedd 2: ..........

..........

*(c)* Nodwch **dri** fformat gwahanol y gellir eu defnyddio wrth argraffu'r cyflwyniad a rhowch *bwrpas pob un* ohonynt. [6]

(i) Fformat: ..........

Pwrpas: ..........

(ii) Fformat: ..........

Pwrpas: ..........

(iii) Fformat: ..........

Pwrpas: ..........

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**6.** Mae *Gwesty Gwyliau* yn defnyddio'r Rhyngrwyd i ddenu rhagor o fusnes. **Disgrifiwch**, *gan roi enghreifftiau*, sut y gallent wneud hyn. [10]



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**7.** Defnyddir y graffigau canlynol yn nhaflenni *Gwesty Gwyliau*. Gan ddewis geiriau o'r rhestr isod, nodwch sut mae'r graffigau hyn wedi cael eu trin *(manipulated)*. **Ni** ddylech ddefnyddio'r un gair **fwy nag unwaith**. [4]

| | | |
|---|---|---|
| **Clipio** | **Cylchdroi** | **Braslunio** |
| **Troi** *(Flip)* | **Ailfeintio** | **Tocio** |



**GRAFFIGYN GWREIDDIOL**



(i) ..............................................................................



(ii) ..............................................................................



(iii) ..............................................................................



(iv) ..............................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**8.** Mae staff *Gwesty Gwyliau* yn defnyddio dulliau safonol o weithio wrth ddefnyddio cyfrifiaduron.

*(a)* Rhowch ddull *gwahanol* o atal **pob un** o'r problemau iechyd posibl canlynol. [3]

(i) Straen llygaid ..................................................

..................................................

(ii) Anaf straen ailadroddus *(RSI)* ..................................................

..................................................

(iii) Poen cefn ..................................................

..................................................

*(b)* Rhowch ddull *gwahanol* o atal **pob un** o'r problemau diogelwch canlynol. [3]

(i) Cael firws ar system gyfrifiadurol ..................................................

..................................................

(ii) Hacwyr ..................................................

..................................................

(iii) Colli data'n ddamweiniol ..................................................

..................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Wrth ateb y cwestiwn canlynol, dylech chi gyfeirio at y dogfennau *'Gwesty Gwyliau'* yn yr Atodiad Deunydd Adnoddau.**

**9.** *(a)* Enwch y **tri** math o ddogfen a roddir yn yr atodiad a nodwch bwrpas **pob un**.

**Dogfen 1**

Enw: .................................................................................................... [1]

Pwrpas: ....................................................................................................

.................................................................................................... [1]

**Dogfen 2**

Enw: .................................................................................................... [1]

Pwrpas: ....................................................................................................

.................................................................................................... [1]

**Dogfen 3**

Enw: .................................................................................................... [1]

Pwrpas: ....................................................................................................

.................................................................................................... [1]

*(b)* Mae **Dogfen 1** a **Dogfen 3** yn cynnwys logo'r cwmni fel rhan o'u harddull tŷ. Nodwch bwrpas *logo cwmni*. [1]

....................................................................................................

....................................................................................................

*(c)* Ar wahân i logo cwmni, rhowch **un** nodwedd *arall* a allai fod yn rhan o arddull tŷ. [1]

....................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(ch)* Rhowch **bedair** nodwedd fformatio sy'n cael eu defnyddio yn **Nogfen 2** ond **nid** yn **Nogfen 1**. [4]

Nodwedd 1: ..........

Nodwedd 2: ..........

Nodwedd 3: ..........

Nodwedd 4: ..........

*(d)* Mae **Dogfen 3** yn cynnwys troedyn. Nodwch ystyr y term *troedyn*. [1]

..........

..........

*(dd)* Ar wahân i droedyn, rhowch **bedair** nodwedd *arall* a ddefnyddir yn **Nogfen 3** ond nid yn **Nogfen 1** na **Dogfen 2**. [4]

Nodwedd 1: ..........

Nodwedd 2: ..........

Nodwedd 3: ..........

Nodwedd 4: ..........

*(e)* Rhowch **ddwy** enghraifft o *ffurflenni cipio data* y gallai *Gwesty Gwyliau* eu defnyddio. [2]

(i) ..........

(ii) ..........

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Parhad yn unig.**

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

631/51-A

**TGAU**

**TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU GYMHWYSOL**

**(DWYRADD)**

A.M. DYDD MERCHER, 6 Mehefin 2007

**Deunydd Adnoddau i'w ddefnyddio gyda Chwestiwn 9.**

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys tair dogfen i'w defnyddio gyda chwestiwn 9.

Mae DOGFEN 1 , DOGFEN 2 a DOGFEN 3 yn labeli ar gyfer adnabod yn unig.

**Nid** yw'r geiriau hyn, na'r blychau o'u cwmpas nhw, yn rhan o'r ddogfen.

**Ni** ddylech chi gyfeirio atynt yn eich atebion.


**Dogfen 1**

# Gwesty Gwyliau

*Gyda Chyfarchion*

**Y Rhodfa, Llandudno, LL5 7PQ   Ffôn: 01726 654132   Ffacs: 01726 654139**
**bwcio@gwestygwyliau.co.uk   www.gwestygwyliau.co.uk**

**Dogfen 2**




***Pob diod***

**HANNER PRIS**

**bob nos**

**5.00pm – 6.00pm**

**yn**

**Bar y Machlud**

**Dogfen 3**

# Gwesty Gwyliau

**Y Rhodfa, Llandudno, LL5 7PQ** **Ffôn: 01726 654132 Ffacs: 01726 654139**
**bwcio@gwestygwyliau.co.uk** **www.gwestygwyliau.co.uk**

Mr Paul Lewis,
5 Y Gelli,
Trefeglwys,
Caerdydd,
CF51 4RR.

Anfoneb: 16640
Rhif Gwestai: 19578
Dyddiad: 27[ain] Mehefin 2006
Rhif Ystafell: 4
Prydau: GB
Sawl Noson: 3

| Dyddiad | Gwerthiant | Nifer | Cost yr Eitem | Cyfanswm cyn TAW | TAW | Cyfanswm gyda TAW |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 24/06/2006 | Cinio tŷ bwyta | 2 | 24.30 | 48.60 | 8.51 | 57.11 |
| 25/06/2006 | Cinio tŷ bwyta | 1 | 22.50 | 22.50 | 3.83 | 26.33 |
| 26/06/2006 | Cod taith: SY557 | 2 | 137.00 | 274.00 | 47.95 | 321.95 |
| 24/06/2006 | Bar | | 27.31 | 27.31 | 4.78 | 32.09 |
| 25/06/2006 | Ffôn | | 11.56 | 11.56 | 2.02 | 13.58 |
| 27/06/2006 | Papurau newydd | 3 | 0.75 | 2.25 | 0.39 | 2.64 |
| 27/06/2006 | **Cyfanswm yn ddyledus** | | | | | **453.70** |

Talwch wrth ymadael     Rhif Cofrestru 1010678     Cynhwysir gwasanaeth

*Cofiwch adael eich allwedd yn y dderbynfa wrth adael. Diolch!*